Deildy (*paent, pwytho llaw ac* appliqué *ar ddefnydd*), 2016



# Consurio gwlad a'i gorffennol

Mae arddangosfa o waith Eleri Mills sydd i'w gweld yn y Drenewydd ar hyn o bryd yn cynrychioli'r degawd diwethaf mewn gyrfa lwyddiannus. Bu'n sôn wrth RHIANNON PARRY am y modd y mae ei hamgylchfyd ym Maldwyn yn parhau i'w hysbrydoli er bod ei chyfrwng yn newid o dro i dro.

*Mi fydda i'n dyfalu'n aml sut le oedd ym Mathrafal, ger Meifod, yn yr wythfed ganrif pan symudodd brenhinoedd Powys yno o Bengwern.*



Afon y galon (*inc ar acetate*), 2011



‘Fy newis i oedd yr artistiaid yn Arddangosfa Oriel Rhydychen yn 1982,’ meddai Constance Howard, hyrwyddwr brodio creadigol amlycaf yr ugeinfed ganrif. Un o’r artistiaid a ddewisodd oedd Eleri Mills, merch ifanc o Ddyffryn Banw a raddiodd ym Manceinion yn 1977. Daeth i amlygrwydd fel artist tecstiliau yn syth ar ôl graddio, gan arddangos mewn orielau rhyngwladol yn Tokyo a Kyoto a’r V&A yn Llundain. Parhaodd i arddangos trwy gydol y deugain mlynedd ar ôl gadael Manceinion.

Yn y Museu Tèxtil i Indumentària Barcelona y cynhaliwyd ei harddangosfa unigol gyntaf. Gwahoddwyd hi drachefn i Kyoto a Tokyo, yn ogystal ag orielau yn Chicago, Lodz, Madrid ac Efrog Newydd. Derbyniodd lu o gomisiynau, a phrynwyd ei gwaith gan sefydliadau ac amgueddfeydd megis Amgueddfa Genedlaethol yr Alban, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Oriel Gelf Whitworth ym Manceinion. Ond er gwaethaf ei llwyddiant rhyngwladol, ym Maldwyn yr oedd ei chalon.

‘Rydw i wrth fy modd yma,’ meddai. ‘Mae Dyffryn Banw yn fy siwtio i. Rydw i’n rhydd i fod yn fi fy hun. Yma mae ’nghartref i. Mae hi’n wych bod yn ferch fferm, a chael teimlo’r hanes sydd o ’nghwmpas i yma. Yr hanes sy’n rhan ohono i.’

Wrth gerdded i mewn i Oriel 1 yn Oriel Davies y Drenewydd a gweld holl waith Eleri yno, mae rhywun yn ymdeimlo â’r hanes hwnnw.

‘Mi ddechreuodd y cyfan sydd yma efo’r rhain,’ meddai am y pedwarawd o weithiau sy’n wynebu’r ymwelydd gyntaf. ‘Ddeng mlynedd yn ôl, yn 2009, mi ges i gynnig arddangos yn y Senedd. Mi wnes i benderfynu llunio’r gyfres o weithiau *Tirlun i Dywysogion*. Mi fydda i’n dyfalu’n aml sut le oedd ym Mathrafal, ger Meifod, yn yr wythfed ganrif pan symudodd brenhinoedd Powys yno o Bengwern (sef Amwythig). A Sycharth wedyn, ger Llansilin, lle’r oedd llys a chartref Owain Glyndŵr. Mae’n rhagflaenwyr ni wedi byw yma cyhyd. Ac olion dyddiau cynnar dynoliaeth o’n cwmpas yma. Yn ddiarwybod bron mae’r ymwybyddiaeth o hynny yn treiddio i ’ngwaith i – y gwaith sydd i’w weld yma – a gafodd ei greu yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Feddyliais i ddim erioed y buaswn i’n casglu’r holl waith ar gyfer arddangosfa yn fy ardal i. Mae cyfarwyddwr newydd yma yn y Drenewydd bellach – Steffan Jones-Hughes – sy’n awyddus iawn i roi sylw i Gymru, yn wahanol i’r arfer yn y gorffennol!’



Tirlun i dywysogion *(paent, inc, siarcol a phastel ar bapur), 2016*

Philip Hughes o Ganolfan Grefft Rhuthun, fodd bynnag, oedd yr un a fynnodd bod Eleri yn casglu gwaith y degawd diwethaf at ei gilydd. A dichon mai i Philip Hughes hefyd y mae’r diolch fod oriel Canolfan Grefft Rhuthun yn cael ei hystyried yn un o’r goreuon trwy’r wlad. Mae Eleri wedi treulio sawl cyfnod yn artist preswyl yno. Ar ôl cyfnod o’r fath yn 2011 y cyflwynodd Cyngor Celfyddydau Cymru wobr Llysgennad Cymru Greadigol iddi. Arweiniodd hynny at breswyliaeth ym Mhrifysgol Columbia, Efrog Newydd, yn ystod gwanwyn 2012, ynghyd ag arddangosfa yn Oriel Gelf Macy yn y ddinas honno. Daeth eto i Ruthun yn 2013 i nodi daucanmlwyddiant marwolaeth yr artist Edward Pugh, awdur *Cambria Depicta*, ac i ddathlu ei daith ogoneddus trwy ogledd Cymru. Lluniodd Eleri hithau ddarluniadau trawiadol o ffyrdd cefn Dyffryn Clwyd.

‘Mi fydda i wrth fy modd hefo mapiau,’ meddai. ‘A hefo gwaith Gwyneth Lewis. Ydech chi’n gyfarwydd â’i cherdd, ‘Cân y Gwneuthurwr Mapiau’?

Rwy’n parhau i lafurio fel rhyw dduw
heb ddawn maddeuant, yn syrffedu’n lân
ar ailddarlunio’r un hen fan o hyd.
Ers pryd bu prydferthwch yn fodd i fyw?

Atgoffais hi am y sylw a wnaed gan Tegla Davies, ‘Nid oes ym


Yn y dyffryn – trwy'r coed I
(*inc a phastel ar bapur*), 2019

*Mi fydda i wrth fy modd hefo mapiau. A hefo gwaith Gwyneth Lewis, gan gynnwys ei cherdd 'Cân y Gwneuthurwr Mapiau'.*

Maldwyn erwinder; y mae gerwinder yn lladd prydferthwch. Prydferth yw Maldwyn.'

'Mmm,' synfyfyriodd. 'Dwi'n synhwyro weithiau mor fregus ydi'r cyfan. I fynd yn ôl at fapiau, mae yna ryw gywreinrwydd rhyfedd ym mapiau'r Albanwr John Ogilby. Mae ganddo sawl map o rannau o Gymru. Sylwoch chi ar y stribedi fertigol sydd ynddyn nhw? A'r modd y mae o'n darlunio pob dim o bwys wrth eu llunio? Un arall, mewn cyfnod ychydig yn ddiweddarach, oedd William Stukeley (1687–1765) oedd â'r gallu i ymdeimlo â chyfnodau cyn-hanes. Welsoch chi'r hen fapiau o Foel Bentyrch yn yr ardal yma? A'r holl linellau sydd ynddyn nhw?'

Mae llinellau, bob un â'i phwrpas, yn nodwedd amlwg yng ngweithiau Eleri. Mae ei gwaith cynnar yn llawn llinellau a grëwyd ag edeifion. Nid oes cymaint o'r edeifion yn ei gwaith diweddaraf. Defnyddir mwy o baent ac inc yn ei gwaith ar gyfer Eisteddfod Llanrwst eleni, *Yn y Dyffryn*. Hwyrach mai ei chyfnod yn fyfyriwr yn Adran Gelf Coleg Aberystwyth yn 2013 a roddodd gyfle iddi arbrofi gyda phrint ac asetynnau, neu o bosib ei chyfnod yn Sefydliad Sanskriti Delhi ac wrth droed Mynyddoedd yr Himalaya. Yn sicr, mae ei darluniau yn Oriel 2 yn drawiadol iawn, a'i defnydd o blastig yn hynod ddyfeisgar. 'Ond gwaith ar bapur,' meddai, 'ydi hwn ar ochr dde'r ystafell, gwaith a wnes i yn Efrog Newydd. Roeddwn i am ddod â'r cwbl yn ôl i Gymru. Felly hwnnw oedd y cyfrwng hawsaf!'

Yr hyn a'm denodd i gyntaf at waith brodio Eleri oedd y lluniau anferth a oedd yn darlunio'i chynefin. Dywedodd wrthyf rywdro sut y bydd yn creu llun. 'Mi fydda i'n gweithio ar fy nhraed gan amlaf, ac yn cerdded yn ôl a blaen i gyfuno'r peintio a'r pwytho. Rhaid i gyfansoddiad pob gwaith fod yn gywir, a meddu cydbwysedd a rhythm sydd wrth fy modd.'

Dyfalu oeddwn i sut y gallai corff mor fychan lwyddo i gyrraedd pob rhan o'r canfas, heb sôn am weithio'r brodwaith.

Fe'm denwyd eleni eto at y llun yn yr arddangosfa a ysbrydolwyd gan gerdd Dafydd ap Gwilym 'Y Deildy'.

Yno y cawn yn y coed
Clywed siarad gan adar,
Clerwyr coed, claerwawr a'u câr,
Cywyddau, gweau gwiail,
Cywion priodolion dail,
Cenedl â dychwedl dichwerw,
Cywion cerddorion caer dderw.

Mae balchder Eleri o'i hetifeddiaeth i'w ganfod hefyd yn ei chyfnither Christine Mills ac yn ei chyfaill, Shani Rhys James. 'Ryden ni'n byw yn agos at ein gilydd, ac yn cynnal ein gilydd,' meddai.

Dywedir y byddai ei theulu wedi bod yr un mor hapus pe bai Eleri wedi dilyn gyrfa ym maes cerddoriaeth. Holais beth oedd ei bwriad yn prynu Capel Pontcadfan yn Llangadfan, ei phentref genedigol lle mae'n dal i fyw. 'I'w gadw. I'w adfer fesul dipyn fel y bydd arian yn caniatáu. Ryden ni wedi cynnal dau neu dri o gyngherddau yno... Ond mae cymaint i'w wneud. Mae gen i sawl darn ar y gweill ar hyn o bryd – mi fydda i'n arddangos yn Oriel Thackeray, Llundain, bob dwy flynedd. Rhaid cael deg ar hugain o ddarnau'n barod. Fory, mae'r arddangosfa "Edeifion Indiaidd" yn agor yn Aberystwyth, lle bydda i'n arddangos ar y cyd â Julia Griffiths Jones, Laura Thomas, Louise Tucker a dwy artist o India – Ragiben M. Vankar a Champa Siju.'

Cefais fy nghyfareddu'n llwyr gan yr arddangosfa hon. Mae mwynder Maldwyn yma, yn sicr, ond mae'r arddangosfa yn driw i'w theitl hefyd gan fod yma, yn wir, ryw egni rhyfeddol.

Mae arddangosfa Eleri Mills, 'Egni – degawd o greadigrwydd', i'w gweld yn Oriel Davies, Y Drenewydd, hyd 18 Rhagfyr.
Mae'r arddangosfa amlgyfrannog 'Edeifion Indiaidd: ysbrydoliaeth tecstiliau' i'w gweld yng Nghanolfan Celfyddydau Aberystwyth tan 9 Tachwedd.